

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Ionawr 2018

Presennol – Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Marion Bettaney, Janet Charlton ,Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriad -- Nick Corney, Cyng Elizabeth Roberts.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr 11eg Rhagfyr 2017.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Adnewyddu Binau Cwn

Dywedodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

[1.2] Tai Fforddiadwy Pentre' Du.

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Ffordd yn Arwain i fyny Heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i loriau

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Y clerc i gysylltu gyda'r Cyng Elisabeth Roberts a hefyd i drefnu cyfarfod gydag Adran Draffig y Cyngor Sir ar Cyngor Cymuned.

[1.5] Adolygiad Arwyddion Twristiaeth/Dyddiad Cau 19eg Ionawr 2018.

Y clerc i gwblhau'r holiadau'r a'i ddychwelyd ymlaen i'r Cyngor Sir.

[1.6] Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019

Cytunodd y Cyng Gareth Wynne, Gwawr Jones a Janet Charlton ffurfio is bwyllgor i drafod sut i godi'r arian

Y brif Agenda

[1.7] Materion Cynllunio

[a] Dymchwel estyniad unllawr ynghyd ac adeiladau allanol ayb ac adeiladu estyniad deulawr ac unllawr newydd. Coed y Fron, Ffordd y Rheithordy, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[b] Cynnig o ddatblygiad ger Gwesty'r Waterloo.

Cafwyd amlinelliad o ail ddyluniad yn y lleoliad uchod yn cynnwys datblygiad cymysg, o loffydydd uwchben, cymwysterau spa, manau gwerthu ar y llawr gwaelod a hefyd maes parcio. Eglurodd Mr Evans y byddai cais cynllunio llawn yn cael ei wneud i'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol agos.

[1.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Rhagfyr 2017

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Rhagfyr 2017.

[c] Presept -Gan nodi'r arian wrth gefn penderfynwyd gosod presept o £5,000.00 ar gyfer 2018/19

[1.9] Meddygfa Betws-y-Coed

Cyfeiriodd y Clerc at lythyr gan y feddygfa yn egluro nad oedd yn bosib defnyddio'r maes parcio'n ddiweddar o ganlyniad eira trwm, ac yn gofyn oedd modd i'r Cyngor roi cymorth. Y clerch i anfon gwybodaeth cyswllt ar gyfer clirio eira.

[2] Llwybr Cae Llan

Mynegwyd pryder bod y llwybr sydd yn rhedeg yn y cae gydag ochr ffordd yr A5 ar gyfer Gwesty'r Royal Oak hyd at Swyddfa'r Bost, o dan ddŵr mewn tri lleoliad yn dilyn glaw trwm. Y clerch i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

[2.1] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Cyngor BS Conwy -Uwchraddio Camerâu Cylch Agos

[b] Rali Cambrian 17eg Chwefror 2018

[c] Richard Morgan Taith Gerdded I godi arian

Cadeirydd _____